# CARWYN SPECK

## CLWB PÊL-DROED TREF ABERDÂR

Mae Carwyn yn gweithio'n ddiflino i Glwb Pêl-droed Tref Aberdâr, mewn sawl swydd. Mae'n hyfforddwr ar gyfer y Tîm Dan 12 Oed a'r Tîm Dan 16 Oed, gan ddarparu sesiynau hyfforddi a chynorthwyo â rhaglen y tymor. Mae hefyd yn flaen hyfforddwr ar gyfer rhaglen Kickers y clwb, sy'n darparu sesiynau hwyl ar gyfer plant rhwng 1 a 5 mlwydd oed.

Mae Carwyn yn rhan o garfan cynnal a chadw'r clwb, gan helpu i ofalu am y maes pêl-droed ac adeilad y clwb. Yn ogystal â hyn, mae'n dod o hyd i'r amser i fod yn ysgrifennydd cofrestru ar gyfer y clwb cyfan ac yn ysgrifennydd ar gyfer adran iau'r clwb.

Mae Carwyn yn brysur iawn, ond pan mae gyda fe eiliad i'w sbario, mae'n helpu y tu ôl i'r bar hefyd! Mae wir yn chwaraewr tîm ac yn wirfoddolwr allweddol yn y clwb. Mae'r clwb mor ddiolchgar am ei waith caled.




Chwaraeon RhCT
Sport RCT

# GWIRFODDOLWR Y MIS

## MAI 2025